**Cais i wneud gwaith ar goed: gwaith ar goed sydd dan orchymyn cadw coed**
**a/neu**
**Hysbysiad ynghylch gwaith arfaethedig ar goed mewn ardaloedd cadwraeth**
*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

**1. Manylion yr ymgeisydd**

Nodwch fanylion yr ymgeisydd gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

**2. Manylion yr asiant**

Nodwch fanylion yr asiant gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

**3. Lleoliad y goeden (coed)**

Os nad oes gan safle'r goeden y mae'r cais yn ymwneud â hi (safle'r coed y mae'r cais yn ymwneud â nhw) gyfeiriad post, rhowch ddisgrifiad manwl o'r safle.

**4. Perchennog coeden (coed)**

Rhowch gyfeiriad perchennog y goeden (coed) os ydych yn ei wybod ac os yw'n wahanol i gyfeiriad y safle lle saif y goeden (coed) (h.y. y cyfeiriad yr ydych wedi'i nodi yn barod ar gyfer y lleoliad).

Nid oes rhaid i chi fod yn berchennog y goeden (coed) i wneud cais, ond mae rhoi gwybod i'r perchennog beth yr ydych yn ei wneud yn arfer da.

**5. Am beth yr ydych yn gwneud cais?**

Os ydych am wneud gwaith ar goed a warchodir gan **Orchymyn Cadw Coed**, bydd angen i chi gyflwyno cais i'r cyngor am ganiatâd i wneud hynny.

Os ydych am wneud gwaith ar goed sy'n tyfu mewn **Ardal Gadwraeth**, bydd angen i chi roi o leiaf chwe wythnos o rybudd i'r cyngor ynghylch eich bwriad.

**6. Manylion y Gorchymyn Cadw Coed**

Mae'n ofynnol i'r cyngor sicrhau bod copïau o Orchmynion Cadw Coed ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim yn ei swyddfeydd ar adegau rhesymol o'r dydd. Fel arfer, bydd angen enw a dyddiad y Gorchymyn arnoch i'ch helpu i ddod o hyd i'r Gorchymyn cywir. Yn ogystal, dylai fod modd i chi gael gafael ar y wybodaeth hon o'r gofrestr pridiannau tir sydd mewn grym yn lleol, oherwydd dylai'r gofrestr ddangos a oes Gorchymyn Cadw Coed yn ymwneud ag eiddo neilltuol. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi am y gwasanaeth hwn.

**Teitl y Gorchymyn Cadw Coed**

Bydd y teitl i'w weld ar ddechrau'r Gorchymyn, er enghraifft:

*Gorchymyn Cadw Coed Dinas Caerdydd (Rhif 4) 1992*
neu
*Gorchymyn Cadw Coed Dinas Caerdydd (1 Maes yr Ardd) 1992*

## 7. Nodi'r goeden (coed) a disgrifio'r gwaith

*Paratoi eich cynllun*

Bydd angen i'ch cynllun ddangos union leoliad y goeden (coed) mewn perthynas ag eiddo/ffyrdd/terfynau cyfagos. Felly, dylai'r cynllun:

- nodi prif nodweddion y safle lle saif y goeden (coed) a nodi'r hyn sydd o gwmpas y safle; yn anad dim, dylai'r cynllun:
    - nodi ac enwi'r ffyrdd sydd o gwmpas y safle
    - dangos braslun o unrhyw adeiladau a geir yno, gan gynnwys adeiladau cyfagos
    - nodi rhifau neu enwau tai
- nodi safle'r goeden (coed) yr ydych am wneud gwaith arni (arnynt)
- nodi'r coed gan ddefnyddio'r rhif a ddangosir yn y Gorchymyn Cadw Coed, lle bo hynny'n bosibl; os byddwch yn defnyddio rhif gwahanol, sicrhewch bod modd cysylltu'r rhif hwnnw â'ch disgrifiad o'r goeden (coed)
- os oes nifer o goed ar y safle, dangoswch yn glir pa goeden (pa goed) sy'n rhan o'r cais hwn:
    - trwy nodi safle pob coeden ar y cynllun, ond rhifo'r coed hynny yr ydych am wneud gwaith arnynt yn unig
    - trwy ddangos y pellter yn fras rhwng y goeden (coed) sy'n ymwneud â'r cais ac unrhyw adeiladau
    - trwy ddangos nodweddion perthnasol eraill ar y safle (e.e. tŷ gwydr, llwybrau)
- os yw'n amhosibl nodi'r goeden (coed) yn fanwl gywir ar y cynllun (e.e. oherwydd ei (eu) bod yn rhan o goetir neu grŵp o goed), nodwch ei (eu) lleoliad yn fras ar y cynllun a darparwch fanylion ynghylch sut y caiff y goeden (coed) ei (eu) marcio ar y safle (e.e. a thâp y gellir ei weld o bell, tagiau coed, paent ac ati); ni ddylid marcio coed trwy eu creithio neu dorri trwy'r rhisgl.

*Enghraifft o gynllun:*



**Gwaith arfaethedig**

Rhaid i chi roi manylion y gwaith yr ydych am ei gyflawni ar bob coeden sydd wedi'i chynnwys yn y cais/hysbysiad. Er enghraifft:

- C1: Derwen – teneuo corun y goeden o 25%
- C2 a C3: Ffawydd (yn G2) – lleihau corun pob coeden o 3m
- Torri saith Onnen (C4 – C10)
- Torri pob Sycamorwydden ar yr eiddo (rhan o W1)

Mae cais i 'frigdorri' neu 'docio' rhai canghennau'n rhy amhenodol, oherwydd nid yw'n nodi i ba raddau y bwriedir gwneud hynny.

**Sut i ddisgrifio gwaith tocio**
Bydd un o'r canlynol, neu gyfuniad ohonynt, fel rheol yn addas i ddisgrifio'r rhan fwyaf o gynlluniau i docio coed:

| | |
|---|---|
| **Teneuo corun coeden** – Mae hynny'n lleihau dwysedd corun coeden heb newid siâp na ffurf y goeden. Mae'r broses deneuo yn lleihau nifer y dail ac yn galluogi mwy o olau i dreiddio trwy'r canopi neu'r corun. Fel arfer, nodir y graddau y bwriedir teneuo corun coeden ar ffurf canran (%) o'r corun.<br>• mae'n ddefnyddiol os oes angen gadael mwy o olau i mewn i erddi a ffenestri<br>• mae'n fodd i glirio canghennau sy'n croesi neu'n rhwbio yn erbyn ei gilydd | |
| **Codi corun coeden** – Yn ei hanfod, mae hynny'n golygu cael gwared â'r canghennau isaf sy'n agos i'r boncyff, neu docio canghennau eilaidd isel er mwyn cael mwy o le clir dan y corun.<br>• mae'n ddefnyddiol os oes angen gadael mwy o olau i mewn i erddi<br>• mae'n atal canghennau isel rhag bod yn rhwystr ar lwybrau a lonydd ac ati | |
| **Lleihau corun coeden** – Caiff corun y goeden ei leihau trwy dorri canghennau'n fyrrach, a gwneir y gwaith hwn o amgylch y corun neu'r canopi cyfan fel rheol er mwyn cadw siâp cytbwys.<br>• gall lleihau corun yn rhannol fod yn ddefnyddiol os oes angen atal canghennau rhag cyffwrdd ag adeiladau, toeon a chafnau dŵr glaw | |

Dylai pob math o waith a wneir ar goed gael ei gyflawni'n unol â Safon Brydeinig 3998 sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwaith ar goed.

**Trin coed yn wael**

Mae'n annhebygol y byddai unrhyw waith a fyddai'n peryglu iechyd coeden, neu unrhyw waith a fyddai'n lleihau ei gwerth i'r amgylchedd lleol yn sylweddol, yn cael ei ganiatáu.

**8. Coed – y rhesymau dros wneud gwaith arnynt**

Wrth gyflwyno'r rhesymau dros wneud y gwaith arfaethedig, darparwch dystiolaeth ategol i gefnogi eich achos.

**9. Coed – gwybodaeth ychwanegol**

**Torri coed a phlannu coed yn eu lle**

Os rhoddir caniatâd i dorri coeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed, rhoddir y caniatâd hwnnw fel rheol ar yr amod bod coeden arall yn cael ei phlannu yn lle'r un a dorrir.

Os ydych yn bwriadu torri coed a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed, rhowch fanylion unrhyw goed yr ydych yn bwriadu eu plannu yn lle'r rhai a dorrir. Os nad ydych yn bwriadu plannu coed yn eu lle, esboniwch pam.

**10. Gofynion cais am ganiatâd cynllunio a gofynion lleol**

Ceir gofynion ar ddwy lefel – gofynion cenedlaethol a gofynion lleol:

- Cenedlaethol – Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.
- Lleol – Bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi cynhyrchu dogfen (a fydd ar gael fel arfer ar ei wefan) sy'n nodi unrhyw wybodaeth benodol, yn ychwanegol at y gofynion cenedlaethol, y bydd angen ei chyflwyno gyda'r cais.

Gallai methu llenwi'r ffurflen yn gywir neu fethu darparu lluniadau digon manwl neu wybodaeth ategol berthnasol arall olygu bod eich cais yn cael ei anfon yn ôl atoch am ei fod yn annilys.

**11. Datganiad - Coed**

Llofnodwch eich cais a nodwch y dyddiad arno.

**12. Manylion cyswllt yr ymgeisydd**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd.

**13. Manylion cyswllt yr asiant**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr asiant.